Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth

2004-05

Estyn

Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth:

Cyhoeddwyd gan Estyn …….. 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd,
CF24 5JW neu drwy e-bost at publications@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2005: Gellir defnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

1. Cyflwyniad **1**

2. Prif ganfyddiadau **1**

3. Argymhellion **3**

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth **4**

5. Deall anghenion dysgwyr **5**

6. Gwella dysgu **7**

Parhad y cwricwlwm 7
Arddulliau dysgu 8
Asesu ar gyfer dysgu 9

7. Effaith y rhaglen Anelu at Ragoriaeth **10**

Atodiad **11**

Cyhoeddiadau yn y rhaglen Anelu at Ragoriaeth 11
Ymgynghori 11
Mentrau'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 11

1. Cyflwyniad

1.1 Roedd cylch gorchwyl Estyn ar gyfer 2004-05 yn cynnwys cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am wybodaeth am newidiadau mewn addysgu a dysgu mewn ysgolion, a hyrwyddir gan y rhaglen 'Anelu at Ragoriaeth'.

1.2 Yn 2002, gan weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ACCAC, cyhoeddodd Estyn 'Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3'. Dyma oedd y cyntaf mewn cyfres o gyhoeddiadau i helpu awdurdodau addysg lleol (AALlau) ac ysgolion i godi safonau drwy wneud i'r gwaith ym Mlwyddyn 7 adeiladu'n fwy effeithiol ar yr hyn yr oedd disgyblion wedi'i wneud yn yr ysgol gynradd. Yn 2004, yn 'Symud ymlaen… Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3' a 'Symud ymlaen… Gwella Dysgu', nodom y gwelliannau mewn trefniadau pontio ac ansawdd y dysgu a oedd wedi digwydd ers 2002.

1.3 Mae'r papur sefyllfa hwn:

- yn darparu gwybodaeth am ddatblygiadau pellach mewn addysgu a dysgu yn 2004-05;
- yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o ymweliadau ag ysgolion ac AALlau;
- yn tynnu ar dystiolaeth o gynlluniau strategol addysg AALlau ac o adroddiadau arolygu ysgolion; a
- yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

2. Prif ganfyddiadau

2.1 Mae dysgu yn flaenoriaeth ar gyfer gwella i'r mwyafrif o AALlau ac ysgolion. Mae llawer o AALlau a chryn dipyn o ysgolion unigol wedi defnyddio arbenigwyr cenedlaethol i gyflwyno mentrau dysgu wedi'u cynllunio'n dda sy'n gwella'r ffordd mae disgyblion yn dysgu ac yn adfywio addysgu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3.

2.2 Mae rheoli ac arweinyddiaeth mentrau dysgu, a phontio yn enwedig, yn gwella. Mae mwy o gonsortia neu deuluoedd o ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i fodloni anghenion disgyblion yn well. Mae ymweliadau ag ysgolion ei gilydd, datblygu unedau pontio a safoni asesiadau athrawon ar y cyd gan grwpiau o athrawon cynradd ac uwchradd wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd addysgu a dysgu.

2.3 Bu gwelliant nodedig ym maint ac ansawdd y wybodaeth am gyflawniadau disgyblion y mae ysgolion cynradd yn ei throsglwyddo i ysgolion uwchradd. Ar y cyfan, mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth am gyflawniadau blaenorol disgyblion yn well, ond nid yw rhai athrawon ysgol uwchradd yn gwybod digon o hyd am anghenion dysgu disgyblion yn eu dosbarthiadau i allu cyflwyno dysgu ar y lefel gywir, yn enwedig ar gyfer disgyblion is eu cyflawniad a disgyblion abl iawn. Mae'r

athrawon yn defnyddio gwybodaeth yn arbennig o dda i gynllunio addysgu priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

2.4 Yng nghyfnod allweddol 2, ac yn fwyfwy yng nghyfnod allweddol 3, mae athrawon yn gwneud yn well o ran datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, ond mae cryn dipyn i'w wneud o hyd, er gwaethaf gwelliannau. Nid oes llawer o ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion mewn medrau allweddol neu'n meddu ar fframwaith i gynllunio ar gyfer dilyniant.

2.5 Mae rhai ysgolion wedi gwneud cynnydd eithriadol o ran gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a dysgu athrawon a disgyblion drwy ymgorffori'r defnydd o TGCh mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r un mor hawdd i ddisgyblion mewn llawer o ysgolion uwchradd ddefnyddio cyfrifiaduron ar gyfer dysgu ag yr oedd iddynt yn yr ysgol gynradd.

2.6 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dechrau addysgu medrau meddwl i ddangos i ddisgyblion sut i ddelio â syniadau newydd ac anodd a sut i fynd ati i ddatrys problemau. Mae'r gwaith hwn yn helpu disgyblion i weld dysgu fel proses o wneud cysylltiadau. Mae datblygu medrau meddwl disgyblion yn gwella iaith a geirfa disgyblion, gan eu gwneud yn fwy annibynnol yn eu meddwl a'u helpu i feddwl yn fwy trwyadl a rhesymegol, yn ogystal â gwella'u dealltwriaeth.

2.7 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn addysgu technegau sy'n gofyn i ddisgyblion feddwl am y ffordd maent yn dysgu, yn ogystal â'r hyn y maent yn ei ddysgu. Maent yn ceisio cyflymu dysgu drwy ddefnyddio ymagweddau addysgu sy'n helpu disgyblion i ddefnyddio'r arddull dysgu sy'n gweddu orau iddynt, er enghraifft gan ddefnyddio delweddau gweledol, patrymau sain a phrofiad uniongyrchol. Dengys tystiolaeth gynnar bod disgyblion yn mwynhau cael eu hysgogi i feddwl am eu dysgu yn y ffordd hon ac mae'n cynyddu eu cymhelliant. Fodd bynnag, nid oes llawer o ysgolion wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r ffordd y byddant yn arfarnu effaith tymor hir y mentrau hyn.

2.8. Mae rhai o'r mentrau dysgu diweddaraf mewn ysgolion uwchradd, er eu bod yn ennyn brwdfrydedd athrawon a disgyblion am ddysgu, yn cael eu datblygu heb gyfeirio at gyfnod allweddol 2. Mae'r gwaith mwyaf effeithiol yn rhan o fenter cynradd-uwchradd ar y cyd fel bod disgyblion yn elwa ar barhad a chysondeb yn y ffordd y maent yn dysgu.

2.9 Bu cynnydd araf wrth wella'r ffordd y mae ysgolion yn defnyddio asesu. Mewn rhai ohonynt, mae disgyblion yn arfarnu'u gwaith eu hunain ar sail dealltwriaeth dda o'r meini prawf asesu. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn deall meini prawf asesu a'r hyn y mae angen iddynt ei ddysgu nesaf er mwyn gwella.

2.10 Mae'n anodd nodi bod un fenter yn uniongyrchol gyfrifol am newidiadau mewn addysgu a dysgu. Mae AALlau ac ysgolion yn defnyddio ystod o ddulliau i wella addysgu a dysgu. Lle mae AALlau ac ysgolion wedi tynnu'n helaeth ar gynnwys ac argymhellion y rhaglen Anelu at Ragoriaeth (fel y rhestrir yn yr Atodiad) yn eu cynlluniau a'u harweiniad ar gyfer athrawon, mae hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at welliannau mewn addysgu a dysgu.

3. Argymhellion

Er mwyn datblygu a chynnal effaith y rhaglen Anelu at Ragoriaeth:

3.1 Dylai Awdurdodau Addysg Lleol:

- barhau i ganolbwyntio ar ddysgu yn eu gwaith gydag ysgolion;
- targedu ymdrechion ac adnoddau lle mae angen gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu fwyaf;
- cefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu cynlluniau pontio;
- rhannu gwybodaeth yn ehangach am fentrau effeithiol AALlau ac ysgolion sy'n datblygu medrau dysgu disgyblion;
- sicrhau bod yr hyfforddiant ysgol gyfan o ansawdd da y maent yn ei ddarparu yn cael ei ddatblygu'n effeithiol mewn ysgolion i wneud gwelliant cynaliadwy i ddysgu; a
- nodi canlyniadau dymunol clir ar gyfer mentrau ac arfarnu eu llwyddiant.

3.2 Dylai ysgolion:

- sicrhau bod yr holl staff yn cynllunio addysgu sy'n adeiladu ar gyflawniadau blaenorol disgyblion, gan roi sylw penodol i anghenion disgyblion sy'n tangyflawni a disgyblion abl iawn;
- rhoi mwy o sylw i'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu a datblygu medrau dysgu;
- gwella medrau llythrennedd a rhifedd fel rhan annatod o'r broses ddysgu;
- sicrhau bod TGCh yn cefnogi syniadau a dysgu da ar draws y cwricwlwm;
- datblygu mentrau i wella dysgu ac asesu ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3;
- gwella'r defnydd o asesu fel bod disgyblion yn gwybod sut i wella safon ac ansawdd eu gwaith;
- cynnwys disgyblion ymhellach, a chynnwys rhieni, wrth drafod am ffyrdd o wella dysgu; ac
- arfarnu effeithiolrwydd mentrau newydd yn drwyadl.

3.3 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- barhau i ddarparu adnoddau, gan gynnwys cyllid, i helpu ysgolion yn eu hymdrechion i wella dysgu, paratoi cynlluniau pontio a datblygu medrau disgyblion;
- sicrhau bod gan y fenter Anelu at Ragoriaeth broffil amlwg a chenedlaethol a bod yr holl ysgolion a rhieni yn deall y strategaeth ar gyfer gwella dysgu a medrau disgyblion; a
- chynnwys AALlau ac ysgolion yn fwy uniongyrchol wrth gynllunio'r rhaglen yn strategol.

4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

4.1 Mae gwella dysgu yn un o flaenoriaethau'r mwyafrif o AALlau ac ysgolion. Mae gan dros hanner yr holl AALlau, a llawer o ysgolion, gynlluniau clir i wella pontio ac mae gan bob un ohonynt ystod o fentrau i wella ansawdd y dysgu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3. I raddau helaeth iawn, mae'r gwaith hwn yn dibynnu ar gyllid gan y Gronfa Ysgolion Gwell a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS).

4.2 Mae mwy o grwpiau o ysgolion cynradd a'u hysgolion uwchradd cysylltiedig wedi dechrau cydweithio'n systematig i wella pontio eleni. Ymysg y rhesymau dros hyn mae'r canlynol:

- argaeledd dyddiau ychwanegol heb ddisgyblion;
- nodi pontio fel blaenoriaeth gan yr AALl;
- effaith ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynlluniau pontio; ac
- argaeledd ystod o arweiniad a ddarparwyd gan ACCAC, yr ASS, y BBC ac Estyn yn 2004.

4.3 Mae rhai AALlau wedi llunio cynlluniau datblygu ardal i helpu ysgolion cynradd ac uwchradd i baratoi cynlluniau pontio.

4.4 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar drefniadau pontio yn gwella. Mewn mwy o AALlau nag o'r blaen, mae uwch reolwyr yn cymryd cyfrifoldeb am wella pontio a dysgu. Mewn mwy o ysgolion, mae uwch reolwyr yn gyfrifol am gydlynu trefniadau pontio. Ar y cyfan, mae AALlau ac ysgolion yn cynllunio arferion newydd yn dda, ond nid ydynt yn arfarnu eu heffaith ar safonau gwaith a chynnydd disgyblion.

4.5 Mae gan rai consortia neu deuluoedd o ysgolion cynradd ac uwchradd raglenni pontio sefydledig gydag amcanion clir a gaiff eu harwain yn dda, fel rhan o gynllun tair blynedd. Mae rhai ohonynt ym mlwyddyn olaf eu rhaglen ac maent yn bwriadu cwblhau eu gwaith drwy baratoi cynlluniau pontio. Yn y gorau o'r gwaith hwn, mae grwpiau o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cydweithio i:

- gynllunio rhaglenni gwaith, gan gynnwys unedau pontio, sy'n rhychwantu Blynyddoedd 6 a 7;
- asesu gwaith disgyblion cyn ac ar ôl i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd;
- rhannu addysgu ac adnoddau; a
- chyflawni llwyddiant mesuradwy wrth wella cynnydd disgyblion ym Mlynyddoedd 7 a 8.

4.6 Mae'r rhan fwyaf o AALlau ac ysgolion wedi defnyddio cyllid a chefnogaeth a ddarperir gan Grantiau Ymyriad Strategol a Menter Hyfforddiant Ysgol Uwchradd yr ASS i wella addysgu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae AALlau yn targedu adnoddau gan yr ASS yn well eleni at ysgolion lle mae gan ddisgyblion fedrau sylfaenol gwael.

4.7 Bellach, mae gan bron pob ysgol yng Nghymru gydlynydd llythrennedd a

rhifedd. Mae cefnogaeth a chyllid gan yr ASS wedi gwella cynllunio ac addysgu medrau allweddol mewn ysgolion uwchradd, er mwyn adeiladu ar y ffordd y mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn addysgu'r medrau hyn. Yn benodol, mae seminarau'r ASS ar bontio wedi helpu rheolwyr canol mewn ysgolion uwchradd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

4.8 Mae gan lawer o AALlau ac ysgolion fentrau dysgu sy'n ceisio gwella medrau meddwl disgyblion ac ymestyn ystod yr arddulliau dysgu. Mae rheoli perfformiad wedi rhoi ysgogiad i'r gwaith hwn. Drwy gynnydd sylweddol mewn arsylwi gwersi, mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn fwy ymwybodol o'r angen i ddileu anghysondebau mewn ansawdd dysgu.

4.9 Yn y mentrau mwyaf effeithiol:

- mae uwch aelod o staff yn arwain rhaglen gydlynol sydd wedi'i chynllunio'n dda i wella'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu;
- mae 'arbenigwyr' cenedlaethol wedi darparu hyfforddiant o ansawdd uchel i benaethiaid, dirprwyon ac athrawon;
- mae gan brosiectau sail resymegol gadarn, ac mae ganddynt amcanion a meini prawf arfarnu clir;
- mae athrawon yn mynd ar ymweliadau y tu allan i'w hysgolion a'u AALlau i weld arfer dda a gymeradwyir yn genedlaethol; ac
- mae cylchlythyrau a chyhoeddiadau arfer dda yn rhannu canlyniadau prosiectau ysgolion a phynciau unigol.

4.10 Nid yw rhai AALlau wedi rhoi digon o sylw i bontio a gwella dysgu nac wedi cydlynu mentrau yn y fath fodd i gael y potensial gorau posibl ohonynt neu i rannu'r manteision. Dim ond ychydig o AALlau sydd wedi targedu ymdrechion ac adnoddau at ysgolion lle mae angen gwelliant fwyaf.

4.11 Nid yw rhai ysgolion uwchradd yn rhannu gwaith rhagorol i wella dysgu mewn pynciau unigol ddigon er mwyn i'r manteision gael eu cymhwyso'n gyson ar draws y cwricwlwm. Nid yw rhai ysgolion wedi gweithredu yn dilyn hyfforddiant mewn swydd ysgol-gyfan o ansawdd da yn ddigon da er mwyn iddo achosi gwelliant cynaliadwy mewn dysgu.

5. Deall anghenion dysgwyr

5.1 Yn dilyn cyhoeddi dogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd' ym mis Tachwedd 2004, mae mwy o ysgolion yn ymwybodol o ofynion y Ffeil Bontio Gyffredin. Mae ysgolion cynradd yn cynnig ystod well o wybodaeth i ysgolion uwchradd ac mae mwy o gysondeb o ran yr hyn a gaiff yr ysgolion uwchradd.

5.2 Mae rhai ysgolion cynradd yn trosglwyddo darnau o waith gorau disgyblion o Flwyddyn 6. Mae'r rhain yn dangos yn effeithiol yr hyn y gall disgyblion ei wneud ac mae'n cynnig gwaelodlin ddefnyddiol ar gyfer monitro cynnydd ym Mlwyddyn 7. Fodd

bynnag, dim ond gwybodaeth am y lefelau y cyrhaeddodd disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 y mae mwyafrif yr ysgolion cynradd yn ei hanfon at yr ysgol uwchradd, heb fantais enghreifftiau o waith disgyblion.

5.3 Mae ysgolion uwchradd yn gwneud yn well o ran rhannu gwybodaeth gan ysgolion cynradd gydag athrawon Blwyddyn 7. Fodd bynnag, mae bylchau yn y wybodaeth. Weithiau, ni ddarperir data am berfformiad yn y pynciau craidd yn ôl targed cyrhaeddiad. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio'r data i'w lawn botensial i nodi anghenion dysgu penodol yng nghyfnod allweddol 3, er enghraifft, gwella ysgrifennu bechgyn. Nid yw rhai athrawon Blwyddyn 7 yn gwybod digon o hyd am alluoedd disgyblion yn eu dosbarthiadau i gynllunio gwaith heriol a diddorol.

5.4 Mae cydlynwyr AAA uwchradd yn defnyddio'r ystod dda iawn o wybodaeth a gânt gan ysgolion cynradd am y disgyblion ag AAA i gynllunio dysgu priodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chaiff anghenion disgyblion abl iawn eu bodloni gystal. Mae tystiolaeth o nifer sylweddol o adroddiadau arolygu uwchradd eleni bod diffyg her briodol i dasgau ar gyfer disgyblion abl iawn, yn enwedig i fechgyn, ac mae'r disgyblion hyn yn cael y gwaith yn hawdd drwy gydol Blwyddyn 7.
.
5.5 Mae rhai grwpiau o ysgolion cynradd ac uwchradd, fel arfer gyda chefnogaeth eu AALl, yn safoni asesiadau'r athrawon o waith disgyblion gyda'i gilydd. Mae'r arfer effeithiol hon yn gwneud athrawon yn fwy hyderus wrth asesu gwaith ac yn eu helpu i gynllunio'n well ar gyfer y cam dysgu nesaf. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cynnig gwybodaeth o ansawdd gwell na marciau profion.

5.6 Ychydig iawn o ysgolion cynradd sy'n trosglwyddo gwybodaeth am fedrau allweddol neu waith disgyblion i'w hysgol uwchradd i gynllunio ar gyfer cysondeb wrth ddatblygu medrau allweddol ehangach disgyblion.

5.7 Mae mwy o ysgolion uwchradd yn cael gwybodaeth well am ddisgyblion sydd mewn perygl o syrthio y tu ôl wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd oherwydd bod ganddynt fedrau llythrennedd, rhifedd neu ddysgu gwan. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r wybodaeth i ddarparu rhaglenni 'dal i fyny' neu gyfoethogi sy'n gwella medrau disgyblion yn sylweddol yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw ysgolion cynradd yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodir cyn i'r disgyblion symud i'r ysgol uwchradd.

5.8 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn cynnig cefnogaeth lawer gwell i ddisgyblion y mae eu problemau presenoldeb ac ymddygiad yn hysbys iddynt cyn i'r disgyblion hyn gyrraedd. Mae rhai prosiectau yn arloesol ac maent yn cynnwys gweithgareddau a chefnogaeth cyn-ysgol neu ar ôl ysgol a ddarperir gan ystod o asiantaethau, gan gynnwys ContinYou, y Gwasanaeth Lles Addysg a gweithwyr ieuenctid. Mae'r mathau hyn o fentrau bellach yn targedu'r disgyblion sydd fwyaf mewn perygl o golli diddordeb mewn dysgu yn effeithiol.

5.9 Mae ysgolion yn ymgynghori'n fwy â disgyblion. Mae hyn wedi rhoi syniadau newydd i athrawon am y ffordd y mae disgyblion yn dysgu orau. Dim ond ychydig o ysgolion sy'n cynllunio cyfleoedd tebyg i wrando ar farnau rhieni. Mae rhai rhieni'n dweud yr hoffent i ysgol eu plant ymgynghori â nhw'n fwy am y ffordd y gallant gefnogi dysgu eu plant orau. Yn benodol, dim ond ar ôl i'w plentyn ddechrau yn yr

ysgol uwchradd y mae rhai rhieni'n sylweddoli pwysigrwydd cael man astudio a lle ar gyfer llyfrau ysgol yn y cartref.

6. Gwella dysgu

Parhad y cwricwlwm

6.1 Mae mwy o athrawon cynradd ac uwchradd yn ymweld ag ysgolion ei gilydd. Mae hyn yn profi'n effeithiol iawn fel man cychwyn o waith ar y cyd ar gynlluniau cwricwlwm a dulliau addysgu. Mae gwaith ar y cyd gan athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, yn benodol, yn helpu gwneud addysgu yn fwy heriol ac yn llai ailadroddus.

6.2 Mae mwy o ysgolion yn defnyddio unedau pontio i wella parhad dysgu. Mae'r unedau hyn yn tueddu syrthio i dri chategori:

- uned o waith AALl y mae dalgylchoedd o ysgolion yn eu mabwysiadu neu'n eu haddasu at eu hanghenion eu hunain, er enghraifft, yn seiliedig ar thema hanesyddol neu lenyddol, am ymchwiliad gwyddonol neu agwedd ar rifedd fel defnyddio algebra;
- uned o waith trawsgwricwlaidd AALl, yn seiliedig ar thema sy'n datblygu medrau allweddol a chreadigol ac sy'n cynnwys asiantaethau eraill fel y gwasanaeth llyfrgell ysgolion a thimau theatr mewn addysg; a
- phrosiectau ar sail dalgylchoedd y mae grwpiau o ysgolion yn eu datblygu gyda'i gilydd, yn aml gyda chefnogaeth yr AALl.

6.3 Y llynedd, roedd unedau pontio'n tueddu canolbwyntio ar yr hyn a addysgwyd yn hytrach nag ar wella dilyniant, ond mae eu hansawdd yn gwella.

6.4 Mae'r unedau pontio gorau:

- yn cynnig trefn o dasgau mwyfwy heriol;
- yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd yn yr hyn y maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac y gallant ei wneud;
- yn cefnogi cysondeb yn ansawdd yr addysgu;
- yn addysgu medrau allweddol fel rhan o'r gwaith; ac
- yn galluogi disgyblion i asesu pa mor dda maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

6.5 Yng nghyfnod allweddol 2, ac yn fwyfwy yng nghyfnod allweddol 3, mae athrawon yn gwneud yn well o ran datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r seminarau ASS ar gyfer athrawon uwchradd pynciau sylfaen wedi helpu rhannu arfer effeithiol ond mae llawer i'w wneud yng nghyfnod allweddol 3 o hyd, er gwaethaf gwelliannau. Yn benodol, mae angen i athrawon uwchradd wneud mwy i helpu disgyblion â medrau sylfaenol gwael i wneud yn well mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae ysgolion uwchradd wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran datblygu medrau llythrennedd na medrau rhifedd.

6.6 Mae rhai ysgolion yn gwneud cynnydd eithriadol o ran gwella medrau TGCh disgyblion. Mae'r ysgolion hyn wedi llwyddo oherwydd bod ganddynt dimau

arweinyddiaeth ysgol hynod ymroddedig sydd wedi creu diwylliant dysgu sy'n integreiddio TGCh yn llawn fel rhan o ddysgu. Mae'r staff yn defnyddio deunyddiau amlgyfrwng arloesol, gan gynnwys byrddau gwyn electronig, fel rhan o wersi arferol. Mae canlyniadau yn cynnwys lefelau uwch o ddiddordeb, cymhelliant ac ymddygiad gan ddisgyblion mewn gwersi sy'n defnyddio TGCh a lefelau uwch o fedrau TGCh ymysg disgyblion o bob gallu.

6.7 Mae gan lawer o ysgolion gryn dipyn i'w wneud o ran defnyddio TGCh yn effeithiol i helpu disgyblion i feddwl a dysgu'n well. Ceir diffyg adnoddau angenrheidiol mewn llawer o ysgolion o hyd i alluogi i ddisgyblion gael mynediad rhwydd i TGCh ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

6.8 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dechrau addysgu medrau meddwl er mwyn gwella dysgu disgyblion. Mae rhai AALlau a chryn dipyn o ysgolion unigol wedi darparu hyfforddiant mewn swydd o ansawdd uchel i athrawon gan arbenigwyr cenedlaethol ar fedrau meddwl. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael effaith sylweddol ar wella'r ffordd y mae athrawon yn dangos i ddisgyblion sut i feddwl am syniadau newydd ac anodd a sut i fynd ati i ddatrys problemau.

6.9 Mae mentrau i ddatblygu medrau meddwl yn gwella ansawdd dysgu. Mae disgyblion sy'n dysgu yn y ffordd hon yn dod yn fwy brwdfrydig, chwilfrydig ac ymholgar. Maent hefyd yn tueddu defnyddio'u medrau newydd mewn gwersi eraill. Mae'r ymagweddau hyn hefyd yn gwella iaith a geirfa disgyblion, yn eu galluogi i fod yn fwy annibynnol yn eu syniadau ac yn eu helpu i feddwl yn fwy trylwyr a rhesymegol. Gall disgyblion weithio'n well ar eu pen eu hunain a hefyd fel rhan o dîm. Bu gwelliant nodedig mewn ymddygiad, hunan-barch a hyder.

6.10 Mae rhai ysgolion yn datblygu medrau meddwl yn well nag ysgolion eraill. Mae'r gwaith mwyaf effeithiol mewn ysgolion lle mae'r uwch dîm rheoli wedi ymroi i ddatblygu medrau meddwl ac wedi gwneud gwella dysgu yn strand mewn cynllun ysgol gyfan.

Arddulliau dysgu

6.11 Mae llawer o ysgolion wedi rhoi sylw eleni i feddwl am y ffordd y mae disgyblion yn dysgu a'r arddulliau dysgu sydd orau ganddynt. Bu swm sylweddol o hyfforddiant i staff ar ddysgu gweledol, clywedol a chinesthetig. Mae mentrau eraill yn cynnwys technegau dysgu carlam fel campfa'r ymennydd a mapio meddwl. Mae'r rhain yn ymagweddau sy'n cynnwys tasgau sy'n gofyn i'r disgyblion siarad am feddwl a delweddu cysyniadau a syniadau. Mae'r holl fentrau hyn wedi ysgogi athrawon i feddwl am ddysgu ac i adolygu'r ffordd y maent yn addysgu.

6.12 Mae'r datblygiadau mwyaf effeithiol i wella dysgu yn rhan o raglen welliant tymor hir sydd â chanlyniadau dymunol sydd wedi'u diffinio'n glir. Bach iawn o ysgolion sydd wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r ffordd y byddant yn arfarnu effaith tymor canolig a thymor hir rhaglenni gwelliant ar ansawdd dysgu a safonau.

6.13 Mae gan y ffocws ar ddysgu botensial i wella medrau allweddol ehangach disgyblion. Bellach, mae gan lawer o ysgolion drefniadau ar gyfer mentora cymheiriaid gan ddisgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o athrawon wedi'u synnu gan fedrusrwydd a hyder y disgyblion wrth dderbyn cyfrifoldebau a'r ffordd y mae'r rolau hyn yn helpu disgyblion i ddeall y broses o ddysgu ac i gymryd mwy o gyfrifoldebau drostyn nhw eu hunain. Mae medrau meddwl yn helpu disgyblion i wella o ran datrys problemau, gweithio gydag eraill a gwella ansawdd eu gwaith eu hunain. Mae'r rhain yn gyflawniadau go iawn ond ychydig o ysgolion sydd â fframwaith ar gyfer sicrhau dilyniant mewn medrau allweddol neu ar gyfer asesu medrau allweddol ehangach disgyblion.

6.14 Mae rhai o'r strategaethau dysgu newydd y mae ysgolion uwchradd yn eu cyflwyno yn adeiladu'n effeithiol ar y ffordd y mae disgyblion yn dysgu yn eu hysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae rhai mentrau, er eu bod yn ennyn brwdfrydedd athrawon a disgyblion at ddysgu, yn cael eu datblygu heb gyfeirio at gyfnod allweddol 2. Mae'r gwaith mwyaf effeithiol yn rhan o fenter cynradd-uwchradd ar y cyd er mwyn i ddisgyblion elwa ar barhad a chysondeb yn y ffordd y maent yn dysgu. Mae angen i ysgolion sicrhau bod dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn symud yn ei flaen mewn ffordd mor ddi-dor â phosibl o gyfnod allweddol 2.

Asesu ar gyfer dysgu

6.15 Mae'r holl ysgolion yn gosod targedau ar gyfer disgyblion y mae athrawon yn eu defnyddio ar ddiwedd cyfnod allweddol i fesur pa mor dda y mae perfformiad yn cyd-fynd â'r disgwyliad. Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn nodi ac yn gweithredu ar resymau dros danberfformiad yn gywir.

6.16 Mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth asesu'n fwyfwy i wella addysgu a dysgu yn ogystal ag ar gyfer adrodd i rieni. Dyma nodweddion pwysig yr ysgolion hynny sy'n gwneud hyn yn effeithiol:

- mae'r holl adrannau'n cymhwyso polisi asesu a marcio ysgol-gyfan a ddeellir yn dda yn gyson, sydd yn aml wedi'i gysylltu â pholisi addysgu a dysgu;
- mae disgyblion yn deall yr hyn y maent yn ei ddysgu i'w wneud, pam y mae'n cael ei addysgu a pha mor dda y maent wrth yn ei wneud; ac
- mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghylch sut i wella.

6.17 Mae rhai ysgolion uwchradd ac adrannau pwnc wedi arloesi gydag ymagweddau newydd effeithiol at asesu i wella dysgu, gan gynnwys asesu cymheiriaid. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon:

- yn rhoi sylwadau ar waith disgyblion, gan ddefnyddio meini prawf clir ar sail lefel cwricwlwm cenedlaethol neu ddisgrifiadau gradd arholiad, yn hytrach na marcio'r gwaith yn unig;
- yn addysgu disgyblion ar y ffordd o rai sylwadau ar waith ei gilydd yn sensitif ac yn adeiladol; a
- dadansoddi lefelau cwricwlwm cenedlaethol fel ei bod yn haws i ddisgyblion wahaniaethu rhwng lefelau ac i fesur cynnydd ynddynt.

O ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall y cynnydd y maent yn ei wneud yn well ac maent yn rhoi mwy o sylw i'r hyn y mae angen iddynt ei ddysgu nesaf yn hytrach na'r marc a gawsant am eu gwaith.

6.18 Ar y cyfan, nid yw defnyddio asesu i gynllunio a gwella dysgu mor effeithiol ag y dylai fod yng nghyfnod allweddol 3. Mewn nifer sylweddol o ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2004-05, nid yw disgyblion yn deall yn llawn meini prawf asesu a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

7. Effaith y rhaglen Anelu at Ragoriaeth

7.1 Diben y rhaglen Anelu at Ragoriaeth yw helpu disgyblion i adeiladu'n fwy effeithiol yng nghyfnod allweddol 3 ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu yng nghyfnod allweddol 2. I wneud hyn, rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd gwella parhad mewn addysgu a dysgu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhestrir cyhoeddiadau allweddol y rhaglen a'r gefnogaeth a ddarperir gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn yr Atodiad.

7.2 Mae'n anodd dangos bod y rhaglen Anelu at Ragoriaeth wedi bod yn benodol gyfrifol am y newidiadau mewn addysgu a dysgu y mae'r papur hwn yn eu disgrifio. Mae pob AALl ac ysgol yr ymwelwyd â nhw wedi defnyddio ystod o ymagweddau, gan gynnwys arweiniad gan ffynonellau heblaw'r rhaglen Anelu at Ragoriaeth, er mwyn gwella dysgu.

7.3 Mae wedi cymryd cryn amser i'r cyhoeddiadau Anelu at Ragoriaeth gyrraedd athrawon. Fodd bynnag, mae bron yr holl AALlau ac ysgolion wedi tynnu ar gynnwys ac argymhellion y cyhoeddiadau Anelu at Ragoriaeth yn eu cynlluniau strategol a datblygu ac yn eu harweiniad ar gyfer athrawon. Yn hyn o beth, mae'r rhaglen wedi hyrwyddo gwelliannau mewn addysgu a dysgu drwy Gymru gyfan yn sylweddol.

Atodiadau

Cyhoeddiadau yn y rhaglen Anelu at Ragoriaeth

Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3
Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

Codi Safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd
BBC Cymru/Llywodraeth Cynulliad Cymru/Estyn/ACCAC, 2003

Symud ymlaen…Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3
Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

Codi Safonau mewn TGCh
BBC Cymru/Llywodraeth Cynulliad Cymru/Estyn/ACCAC, 2004

Symud ymlaen…Gwella Dysgu
Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

Pontio'r Bwlch
ACCAC/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3
BBC Cymru/ Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC/Estyn 2004

Ymgynghori

Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd
Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

Mentrau'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol

Grantiau Ymyriad Strategol

Menter Hyfforddiant Ysgolion Uwchradd